


Briff Ymchwil

# Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

- Crynodeb o Fil
- Crynodeb o newidiadau Cyfnod 2
- Geirfa Gymraeg

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

---

Awdur: **Helen Jones, Chloe Corbyn ac Sean Evans**
Dyddiad: **Mehefin 2017**
Rhif Papur: **16-063**
Clawr blaen: **Llun Wikimedia gan Wysypisko. Trwydded Creative Commons.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6309**
: **Helen.Jones@Cynulliad.Cymru**
: **0300 200 6316**
: **Chloe.Corbyn@Cynulliad.Cymru**
: **0300 200 7330**
: **Sean.Evans@Cynulliad.Cymru**
: **Cynulliad.Cymru/Pigion**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


**1. Cyflwyniad .... 1**

**2. Cefndir y Bil .... 2**

Datganoli pwerau treth .... 2

Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 .... 2

Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) .... 2

Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) .... 2

Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi .... 6

Ymgynghoriad a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru .... 6

**3. Crynodeb o'r Bil .... 8**

Amcanion polisi'r Bil .... 8

Rhan 1: Trosolwg .... 8

Rhan 2: Y dreth a gwarediadau trethadwy .... 8

Rhan 3: Gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig .... 9

Rhan 4: Gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig .... 11

Rhan 5: Darpariaeth atodol .... 11

Rhan 6: Darpariaethau terfynol .... 14

Atodlenni .... 14

**4. Costau ac effeithiau'r Bil .... 15**

Costau .... 15

Arian a arbedir .... 15

**5. Ymatebion i'r Bil .... 17**

**6. Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu yn ôl y Memorandwm Esboniadol .... 20**

**7. Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2 .... 21**

Cefndir .... 21

Craffu .... 21

Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2 .... 21

Deunydd cymwys .... 21

Mynwentydd anifeiliaid anwes .... 22

Pwysau trethadwy deunydd .... 22

Rhyddhad Rhag Treth .... 22

Datgelu gwybodaeth .... 22

Cosbau .... 22

Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi .... 22

Y camau nesaf ..... 22
I gael rhagor o wybodaeth ..... 23
8. **Geirfa Gymraeg** ..... **24**
Termau penodol i'r Bil ..... 24
Termau deddfwriaethol cyffredinol ..... 26

# 1. Cyflwyniad

Dyddiad cyflwyno: 28 Tachwedd 2016

Yr Aelod sy'n Gyfrifol: Mark Drakeford AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol

Pwyllgor y Cynulliad sy’n craffu ar y Bil yn ystod Cyfnod 1: Y Pwyllgor Cyllid

Dyddiad olaf ar gyfer cyflwyno adroddiad Cyfnod 1: 10 Mawrth 2017

Gosodwyd y **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)** ('y Bil') gerbron y Cynulliad ar 28 Tachwedd 2016. Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford, ar 29 Tachwedd 2016. Y Bil hwn yw’r trydydd mewn cyfres o filiau yn ymwneud â datganoli’r pwerau treth yn Neddf Cymru 2014. Rhagflaenwyd y Bil hwn gan **Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016** a sefydlodd y fframwaith cyfreithiol angenrheidiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol a'r **Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)**, a fydd yn disodli Treth Dir y Dreth Stamp o fis Ebrill 2018.

# 2. Cefndir y Bil

## Datganoli pwerau treth

Yn dilyn argymhellion gan **Gomisiwn Silk**, datganolwyd rheolaeth dros Dreth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Tirlenwi i Lywodraeth Cymru o dan **Ddeddf Cymru 2014**. Mae'r Ddeddf hefyd yn datganoli yn **elfen o dreth incwm** i Gymru.

Mae'r Papur Gorchymyn **Wales Bill: Financial Empowerment and Accountability Command Paper** yn datgan mai bwriad Llywodraeth y DU yw 'ddiffodd' fersiynau'r DU o'r Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi fel na fyddant yn gymwys yng Nghymru o fis Ebrill 2018. Yn ôl y **Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol**, rhagwelir y bydd Treth Dir y Dreth Stamp a'r Dreth Dirlenwi yn codi £267 miliwn yn 2018-19, sydd gryn dipyn yn llai na 2 y cant o grant bloc Llywodraeth Cymru, sef £15 biliwn. Bydd y grant bloc yn cael ei leihau i adlewyrchu faint o refeniw sy'n dod i law yn sgil y trethi datganoledig. Felly, gwella atebolrwydd trwy gysylltu elfen dybiannol o wariant cyhoeddus â refeniw treth yw prif bwrpas datganoli elfennau o drethiant i Gymru, yn hytrach na chodi incwm ychwanegol. Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) yw'r trydydd darn o ddeddfwriaeth ym maes treth i gael ei gyflwyno yng Nghymru.

## Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

Cafodd Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 25 Ebrill 2016, gan sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru fel adran anweinidogol. Roedd hyn yn darparu'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer casglu a rheoli trethi datganoledig yng Nghymru yn y dyfodol.

## Y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

Cyflwynwyd y **Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)** yn y Cynulliad ar 12 Medi 2016. Cyn hyn, cyhoeddwyd fersiwn ddrafft o'r Bil ar 13 Gorffennaf 2016 gan roi cyfle i randdeiliaid graffu ar y Bil cyn iddo gael ei gyflwyno'n swyddogol. Mae'r Bil hwn yn nodi'r trafodion y codir Treth Trafodiadau Tir arnynt a phwy sy'n agored i dalu'r dreth honno, a'r gweithdrefnau ar gyfer pennu cyfraddau a bandiau'r dreth, ac ar gyfer cyfrifo'r Dreth Trafodiadau Tir a'r gostyngiadau sydd ar gael. Mae'r Bil hwn hefyd yn nodi mesurau i fynd i'r afael â phobl sy'n osgoi talu trethi yng Nghymru.

## Y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)

Mae'r Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi yn ymwneud â sefydlu'r fframwaith cyfreithiol, gweinyddol a gweithredol ar gyfer y dreth yng Nghymru. Mae'r Dreth Dirlenwi ar hyn o bryd yn dreth y DU ar gael gwared ar ddeunydd fel gwastraff trwy ei roi mewn safleoedd tirlenwi a ganiateir o dan ddeddfwriaeth amgylcheddol. Cyflwynwyd y dreth bresennol ym 1996 fel elfen allweddol i sbarduno newid mewn ymddygiad amgylcheddol trwy roi cymhelliant i ddargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi, gan ailgylchu, ailddefnyddio ac adennill mwy o wastraff. Ers i'r dreth gael ei chyflwyno mae wedi cyfrannu at ostyngiad sylweddol yng nghyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi, a chynnydd mewn cyfraddau ailgylchu. Yng Nghymru gwelwyd cyfanswm y tunelli o wastraff a anfonwyd i safleoedd tirlenwi yn gostwng 52 y cant rhwng 2001 a 2013.

O ran y cyd-destun polisi ehangach, mae strategaeth Llywodraeth Cymru, Tuag at Ddyfodol Diwastraff, yn gosod nod i anfon cyfran mor agos at sero ag y bo modd (<5 y cant) o'n gwastraff i safleoedd tirlenwi erbyn 2025, gydag uchelgais o gyrraedd sero erbyn 2050. Roedd Adolygiad Stern yn 2006 ar newid yn yr hinsawdd yn cyfeirio at safleoedd tirlenwi fel un o brif achosion allyriadau o wastraff sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.

Mae'r sefyllfa reoleiddio Ewropeaidd wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno'r dreth ym 1996, gan ddylanwadu'n gryf ar y ffordd y mae gwastraff yn cael ei reoli yng Nghymru. Rhai newidiadau nodedig fu cyflwyno Cyfarwyddeb Tirlenwi'r UE ym 1999 a phenderfyniad Cyngor yr UE ar Feini Prawf Derbyn Gwastraff yn 2002, a oedd yn nodi'r safonau y mae'n rhaid i'r gwastraff eu bodloni i gael ei dderbyn i safle tirlenwi.

Mae'r dreth dirlenwi wedi bod yn esblygu'n gyson wrth i dechnolegau newydd a datblygiadau polisi ddod i'r amlwg. Nodir yn y **Memorandwm Esboniadol** (PDF, 935KB) sy'n cyd-fynd â'r Bil bod y Dreth Dirlenwi wedi datblygu dros yr 20 mlynedd diwethaf, a bod angen ystyried deddfwriaeth sylfaenol ac isddeddfwriaeth, cyfarwyddydau, hysbysiadau a chanllawiau yn ogystal â chyfraith achosion er mwyn cael darlun cyflawn. Mae hyn yn golygu bod safleoedd tirlenwi yn gweithredu mewn sefyllfa gymhleth ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sy'n gweinyddu'r dreth a'i chasglu gan weithredwyr safleoedd tirlenwi. Ar hyn o bryd mae dwy haen i'r dreth: y gyfradd safonol (sydd wedi codi o £7 y dunnell ym 1996-7 i £80 y dunnell yn 2014-15); a chyfradd is ar gyfer deunyddiau cymwys penodol[1] sef £2.50 y dunnell. Dengys data alldro Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fod y Dreth Dirlenwi wedi codi rhwng £44 miliwn a £49 miliwn y flwyddyn yng Nghymru dros y pum mlynedd diwethaf.

**Tabl 1: Refeniw o'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru 2010-11 hyd 2015-16 (£m)**

*£m*

| | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Y Dreth Dirlenwi | 45 | 44 | 47 | 49 | 47 | 44 |

Ffynhonnell: **Memorandwm Esboniadol, y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**, tudalen 9

Cyhoeddwyd rhagolygon diweddaraf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar 23 Tachwedd 2016 ar gyfer refeniw blynyddol Cymru yn sgil treth ar warediadau i safleoedd tirlenwi tan 2021-22. Mae'r rhagolygon hyn, a ddangosir yn nhabl 2, yn amcangyfrif y codir £27 miliwn yn 2018-19, sef y flwyddyn gyntaf i'r dreth dirlenwi fod wedi'i datganoli. Cafodd y ffigwr hwn ei ddiwygio ers rhagolygon mis Mawrth 2016, a oedd yn amcangyfrif y byddai £40 miliwn yn cael ei godi yn 2018-19. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn esbonio bod y rhagolygon refeniw wedi'u gostwng oherwydd i gyfran Cymru o dderbyniadau treth dirlenwi Llywodraeth y DU wedi'i diwygio o 4.8 y cant i 3.8 y cant. Mae hyn yn seiliedig ar ddadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata Cyfoeth Naturiol Cymru a oedd yn dangos bod cyfran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi yn lleihau'n gyflymach yng Nghymru nag yng ngweddill y DU.

[1]Deunyddiau cymwys: Creigiau a phridd, deunyddiau ceramig neu goncrid, mwynau, slagiau ffwrnais, lludw, cyfansoddion anorganig actifedd isel, calsiwm sylffad, calsiwm hydrocsid a heli.


**Tabl 2: Rhagolygon y dreth dirlenwi yng Nghymru**

| | £ million | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2015-16 | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 | 2021-22 |
| March 2016 | 47 | 44 | 40 | 40 | 41 | 42 | |
| November 2016 | 34 | 35 | 30 | 27 | 25 | 24 | 23 |
| Difference | -13 | -9 | -10 | -13 | -16 | -18 | |
| *of which:* | | | | | | | |
| Welsh share | -9 | -9 | -8 | -7 | -7 | -6 | |
| UK forecast | -4 | 0 | -2 | -6 | -9 | -12 | |

Ffynhonnell: Y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, **Devolved Tax Forecast** 23 Tachwedd 2016, tudalen 36

Nodir yn y Memorandwm Esboniadol bod 25 o safleoedd tirlenwi ac 20 o weithredwyr safleoedd tirlenwi yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae nifer y safleoedd tirlenwi yng Nghymru yn lleihau, a disgwylir y bydd llai na 10 ohonynt erbyn 2020. Mae'r map yn Ffigur 1 yn dangos bod y rhan fwyaf o safleoedd tirlenwi yng Nghymru (a'r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru) o fewn 50 milltir i'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

## Ffigur 1: Safleoedd tirlenwi a phoblogaethau - y ffin rhwng Cymru a Lloegr




Ffynonellau: Cyllid a Thollau EM, List of registered Landfill site operators, Mai 2016 a chyfrifiadau'r Gwasanaeth Ymchwil gan ddefnyddio data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, Lower Super Output Area Mid-Year Population Estimates 2015

## Y Gronfa Cymunedau Tirlenwi

Cronfa i gefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol yng nghyffiniau safle tirlenwi yw'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi, a chaiff ei darparu gan gyfundrefn dreth bresennol y DU. Cynllun credyd treth sy'n galluogi gweithredwyr safleoedd tirlenwi i gyfrannu cyfran o'u rhwymedigaeth treth i brosiectau cymwys yw'r Gronfa Cymunedau Tirlenwi. Caiff ei gweinyddu ar hyn o bryd fel cronfa sector preifat a'i rheoleiddio trwy Entrust. Yn 2013-14, darparwyd £4.3 miliwn trwy'r cynllun i 220 o brosiectau yng Nghymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn datgan:

> *(…) bydd y trefniadau Credyd Cymunedau Tirlenwi (Cyrff Amgylcheddol) yn cael eu cyflawni trwy Gynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, sy'n cael ei ddatblygu gyda rhanddeiliaid sy'n cynnwys gweithredwyr safleoedd tirlenwi a'r trydydd sector. Ni fydd hwn yn cael ei ddarparu fel credyd treth ac, fel y cyfryw, ni fydd yn ofynnol iddo gael ei wneud mewn deddfwriaeth. Bwriad Llywodraeth Cymru yw creu'r cynllun gan ddefnyddio pwerau presennol o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 gan alluogi iddo gael ei sefydlu fel cynllun grant. Bwriedir i'r dull hwn symleiddio'r broses o weinyddu'r cynllun a sicrhau bod cymaint o gyllid â phosibl yn cyrraedd prosiectau.*

## Ymgynghoriad a phenderfyniadau Llywodraeth Cymru

Ym mis Chwefror 2015 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **ymgynghoriad** yn gofyn am farn ynglyn â datblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi i Gymru. Cyn yr ymgynghoriad, ceisiodd Llywodraeth Cymru safbwyntiau rhagarweiniol gan randdeiliaid i lywio'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad. Bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio defnyddio'r broses o ddatblygu Treth Gwarediadau Tirlenwi fel dull ychwanegol o gefnogi ei pholisïau, yn enwedig ym maes gwastraff.

Daeth bron i 300 o ymatebion i'r ymgynghoriad i law, a hynny gan amrywiaeth eang o randdeiliaid gan gynnwys y diwydiant gwastraff, cyrff amgylcheddol, y trydydd sector ac arbenigwyr treth. Cyhoeddwyd **crynodeb o'r ymatebion** ar 15 Medi 2015.

Roedd yr ymgynghoriad yn nodi nifer o ffactorau allweddol i'w hystyried wrth ddatblygu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gan gynnwys archwilio sut y gallai'r dreth:

- Gefnogi amcanion Llywodraeth Cymru mewn cysylltiad â'r strategaeth Tuag at Ddyfodol Diwastraff, newid yn yr hinsawdd, yr amgylchedd a datblygu cynaliadwy, a mynd ymhellach tuag at eu cyflawni, heb gael effaith negyddol neu ormodol ar fusnesau;
- Adlewyrchu datblygiadau yn y sector gwastraff dros yr 20 mlynedd diwethaf, gan gynnwys arferion rheoli gwastraff modern a datblygiadau technolegol, ynghyd â newidiadau i'r drefn reoleiddio Ewropeaidd;
- Cadw sefyllfa sy'n gyson â sefyllfa'r DU pan fo'n briodol, er mwyn i'r system fod yn haws ei gweinyddu neu i atal twristiaeth gwastraff, a chyflwyno newidiadau pan fo rheswm da dros wneud hynny.

Roedd yr ymgynghoriad yn archwilio nifer o faterion yn ymwneud ag agweddau ariannol y dreth arfaethedig, ac agweddau'n ymwneud â pholisi. Roedd y rhain yn cynnwys:

- A yw cyfraddau'r dreth bresennol wedi'u gosod ar lefel sy'n briodol i Gymru;
- Pa mor bwysig yw cysondeb o ran trethi rhwng Cymru, Lloegr a'r Alban;

- A oes angen newid y deunyddiau sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd dreth is, ac os felly ar ba sail;
- Materion yn ymwneud â'r trefniadau presennol ar gyfer rhoi credyd am ddeunydd tirlenwi a symudir yn barhaol o safle tirlenwi, a sut y gellid rhoi sylw i'r rhain;
- Trafodaeth ynglŷn â deunyddiau wedi'u hesemptio[2] ac a oes angen cyflwyno esemptiadau newydd;
- Goblygiadau ymarferol ymestyn y diffiniad o safleoedd tirlenwi i gynnwys achosion o ollwng gwastraff yn anghyfreithlon (e.e. tipio anghyfreithlon) o fewn cwmpas y dreth;
- Problemau'n ymwneud ag osgoi treth o fewn y cynllun presennol;
- A oes angen mwy o weithgarwch ar lawr gwlad i sicrhau cydymffurfiad;
- A ddylai Llywodraeth Cymru ddyrannu cyfran o refeniw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wella lles cymunedau, ac os felly, pa weithgareddau a ddylai elwa ar gyllid (e.e. lleihau gwastraff, bioamrywiaeth, trechu tlodi).
- Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru, yn ystod y broses ymgynghori a thrwy gydol y gwaith o ddatblygu'r polisi, wedi ymgysylltu â nifer o randdeiliaid yng nghyfarfodydd Grŵp Cynghorol Trethi Llywodraeth Cymru, y Fforwm Treth, Grŵp Arbenigwyr Technegol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a grŵp rhanddeiliaid gweithredwyr safleoedd tirlenwi. Bu swyddogion Llywodraeth Cymru hefyd yn ymweld â detholiad cynrychiadol o safleoedd tirlenwi, gan gynnwys safle tirlenwi masnachol, safle tirlenwi preifat a safle tirlenwi sy'n cael ei redeg gan awdurdod lleol. Trefnwyd ymweliadau hefyd i gwrdd â thimau cyllid gweithredwyr safleoedd tirlenwi ac i ymweld â phrif swyddfeydd i weld sut mae'r Dreth Dirlenwi yn cael ei gweinyddu.
- Ar 30 Mehefin 2015 **cyhoeddodd** y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn uniongyrchol ac y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymdrin â gwaith cydymffurfio a gorfodi ar ran Awdurdod Cyllid Cymru. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod elfennau o'r ddeddfwriaeth arfaethedig wedi cael eu profi gydag aelodau o Grŵp Arbenigwyr Technegol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, cynghorwr allanol annibynnol, gweithwyr proffesiynol ym maes treth a gweithredwyr safleoedd tirlenwi.

[2] Deunyddiau wedi'u hesemptio: Carthion, gwastraff mwyngloddio a chwarela, llenwi chwareli, mynwentydd anifeiliaid anwes, gwastraff lluoedd (NATO) sy'n ymweld

# 3. Crynodeb o'r Bil

## Amcanion polisi'r Bil

Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig â'r Bil yn nodi'r amcanion polisi a ganlyn ar gyfer y ddeddfwriaeth:

- Cyflwyno treth i ddisodli'r Dreth Dirlenwi er mwyn i wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru allu parhau i dderbyn budd y refeniw a godir gan y dreth
- Sicrhau bod pris priodol yn cael ei godi am waredu gwastraff mewn safleoedd tirlenwi, er mwyn adlewyrchu ei gost amgylcheddol
- Hyrwyddo dull mwy cynaliadwy o reoli gwastraff gan gynhyrchu llai o wastraff a naill ai ailddefnyddio mwy o wastraff neu adennill gwerth ohono
- Darparu dull ychwanegol i Lywodraeth Cymru annog pobl a sefydliadau i gynhyrchu llai o wastraff, ailddefnyddio, ailgylchu ac adennill mwy o wastraff, a chefnogi polisïau gwastraff
- Darparu Bil cydlynol, rhesymegol a chyfredol sy'n adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion Cymru yn well
- Galluogi Awdurdod Cyllid Cymru i godi treth ar warediadau gwastraff heb eu hawdurdodi a galluogi Cyfoeth Naturiol Cymru i ymgymryd â gwaith sicrhau cydymffurfiad a gorfodi

## Rhan 1: Trosolwg

Mae Rhan 1 yn rhoi trosolwg o'r Bil. Mae'n disgrifio cynnwys rhannau dilynol y Bil, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddarpariaeth y bwriedir iddi gael effaith gyfreithiol.

## Rhan 2: Y dreth a gwarediadau trethadwy

Mae Rhan 2 yn sefydlu y bydd treth a elwir yn dreth gwarediadau tirlenwi, y bydd yn cael ei chodi ar warediadau trethadwy, ac y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn casglu a rheoli'r dreth. Mae hefyd yn diffinio gwarediadau trethadwy, gwaredu deunydd trwy dirlenwi, safleoedd tirlenwi awdurdodedig a thrwyddedau amgylcheddol, a gwaredu deunydd fel gwastraff, ac yn nodi'r sawl sy'n gyfrifol am waredu a'r gweithgarwch tirlenwi sydd i'w drin fel gwarediadau trethadwy.

Mae'n gwneud hyn drwy:

- (a2) Sefydlu y bydd treth a elwir yn dreth gwarediadau tirlenwi, y caiff ei chodi ar warediadau trethadwy, ac y bydd Awdurdod Cyllid Cymru yn gyfrifol am gasglu a rheoli'r dreth.
- (a3-5) Diffinio'r cysyniad o warediad trethadwy drwy bennu y bydd gwarediad trethadwy yn digwydd pan fydd deunydd yn cael ei waredu trwy ei dirlenwi (ar neu o dan wyneb y tir (s4)), mewn safle tirlenwi awdurdodedig â thrwydded amgylcheddol (a5) yng Nghymru.
- (a6) Diffinio y bydd y deunydd sy'n cael ei waredu yn wastraff os bydd y sawl sy'n gyfrifol am ei waredu yn bwriadu bwrw'r deunydd o'r neilltu.
- (a7) Nodi'r sawl a fydd yn gyfrifol am waredu gwastraff. Manylu mai gweithredwr y safle sy'n gyfrifol am y gwaredu pan fo gwastraff yn cael ei waredu ar safle tirlenwi awdurdodedig. Os nad yw'r gwastraff yn cael ei waredu ar safle tirlenwi neu os caiff ei waredu ar safle tirlenwi heb ganiatâd gweithredwr y safle, y sawl sy'n gwneud y gwaredu sy'n gyfrifol amdano.

- (a8) Diffinio gweithgarwch ar safle tirlenwi sydd i'w drin fel gwarediad trethadwy. Mae'r adran hon yn esbonio bod y gweithgarwch yn cyfrif fel gwarediad trethadwy pan fydd deunydd yn cael ei ddefnyddio am y tro cyntaf ar gyfer gweithgarwch safle tirlenwi. Mae hyn yn cynnwys creu neu gynnal ffyrdd dros dro, arwyneb solet dros dro, byndiau celloedd a gweithgareddau eraill.
- (a9-a12) Diffinio gwarediadau sydd wedi'u hesemptio rhag talu'r dreth, gan gynnwys gwarediadau lluosog ar yr un safle a mynwentydd anifeiliaid anwes.

## Rhan 3: Gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig

Mae Rhan 3 yn nodi'r trefniadau ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, fel rhwymedigaeth i dalu, y dull o gyfrifo'r dreth, y ddyletswydd i gofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru a sut i gyfrif am y dreth, gan gynnwys rhyddhad rhag y dreth.

- (a13) Diffinio mai gweithredwr y safle tirlenwi ar yr adeg y caiff y gwastraff ei waredu sy'n atebol am dalu'r dreth, yn achos gwarediadau a wneir ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig.
- (a14) Diffinio bod swm y dreth a godir ar y gwarediad i gael ei gyfrifo drwy luosi'r pwysau trethadwy'r deunydd mewn tunelli, naill ai â'r gyfradd safonol neu â'r gyfradd is yn achos deunyddiau cymwys. Bydd cyfraddau'r dreth yn cael eu rhagnodi mewn rheoliadau.
- (a15) Diffinio'r deunyddiau a fydd yn gymwys ar gyfer y gyfradd is, a fydd yn cael ei rhagnodi mewn rheoliadau. Ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi gadw disgrifiad ysgrifenedig o'r deunydd (nodyn trosglwyddo gwastraff).
- (a16) Diffinio'r profion y bydd angen i gymysgeddau o ddeunyddiau eu bodloni er mwyn bod yn gymwys ar gyfer cyfradd is y dreth.
- (a17) Diffinio sut y dylid profi gronynnau mân (gronynnau a gynhyrchir gan broses trin gwastraff sy'n cynnwys triniaeth fecanyddol) i asesu a yw'r cymysgedd o ddeunydd yn gymysgedd cymwys neu'n gymysgedd anghymwys.
- (a18-20) Ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi, neu Awdurdod Cyllid Cymru pan fo'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi bennu pwysau'r deunydd mewn tunelli a rhoi disgownt ar gyfer y dŵr sy'n bresennol yn y deunydd. Gellir pwyso'r deunydd ar bont bwyso, neu gall gweithredwr y safle tirlenwi gwneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru ddefnyddio dull arall i bennu pwysau'r deunydd.
- (a21) Ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi wneud cais ysgrifenedig i Awdurdod Cyllid Cymru am gymeradwyaeth i roi disgownt dŵr wrth gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd. Ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi gadw cofnod o'r disgownt dŵr mewn cysylltiad â phob gwarediad trethadwy lle y rhoddir disgownt o'r fath.
- (a22-23) Manylu ynglŷn â sut y dylai Awdurdod Cyllid Cymru gyfrifo pwysau trethadwy'r deunydd pan fo'n credu ei bod yn briodol gwneud hynny, a chaniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ddiystyru'r disgownt dŵr wrth gyfrifo pwysau trethadwy deunydd mewn achosion o beidio â chydymffurfio.
- (a24) Diwygio adran 172(2) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi fel bod y weithdrefn adolygu ac apelio yn Rhan 8 o'r Ddeddf honno yn berthnasol i benderfyniadau o dan adran 20 o'r Bil.
- (a25) Pennu bod rhai gwarediadau penodol yn cael eu rhyddhau rhag talu'r dreth; a sefydlu nad yw'r rhyddhad ond yn berthnasol mewn cysylltiad â gwarediadau ar safleoedd tirlenwi awdurdodedig, na

fydd treth yn cael ei chodi pan fo rhyddhad yn gymwys, ac na fydd rhyddhad ond yn berthnasol os caiff ei hawlio mewn ffurflen dreth.

- (a26) Diffinio rhyddhad rhag treth sy'n berthnasol i waredu deunydd a dynnir o wely'r afon, o wely'r môr neu o wely dŵr arall.
- (a27) Diffinio rhyddhad rhag treth sy'n berthnasol i ddeunydd sy'n deillio o fwyngloddio neu chwarelu.
- (a28-30) Diffinio rhyddhad rhag treth ar gyfer gwaredu deunydd at ddibenion adfer safle tirlenwi (neu ran ohono) at ddefnydd arall. Mae'n rhaid i weithredwr y safle wneud cais ysgrifenedig am y rhyddhad cyn i'r gwaith adfer ddechrau. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru wneud cais i weithredwr y safle am fwy o wybodaeth cyn rhoi cymeradwyaeth.
- (a31) Diffinio rhyddhad rhag treth ar gyfer gwaredu deunyddiau cymwys mewn rhai chwareli penodol y mae'n rhaid eu hail-lenwi o ganlyniad i ganiatâd cynllunio neu na chaniateir iddynt ond derbyn deunydd cymwys o dan eu trwydded amgylcheddol.
- (a32) Caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, ddiwygio deddfwriaeth sylfaenol i greu, addasu neu ddileu unrhyw fath o ryddhad.
- (a33-36) Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru gadw cofrestr o'r bobl hynny sy'n gweithredu safleoedd tirlenwi awdurdodedig. Rhaid i gofnod yn y gofrestr gynnwys yr wybodaeth a bennir yn Atodlen 1. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gyhoeddi gwybodaeth sydd yn y gofrestr. Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy gael ei gofrestru ag Awdurdod Cyllid Cymru a hysbysu'r Awdurdod am unrhyw newidiadau yn ei amgylchiadau sy'n achosi i'r gofrestr fod yn anghywir. Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sydd wedi'i gofrestru ac sy'n rhoi'r gorau i gynnal gweithrediadau trethadwy wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru i ganslo ei gofrestriad.
- (a37) Diwygio adran 172(2) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi fel bod y weithdrefn adolygu ac apelio yn Rhan 8 o'r Ddeddf honno yn berthnasol i gofrestru rhywun ag Awdurdod Cyllid Cymru at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.
- (a38-40) Ei gwneud yn ofynnol i unrhyw un sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy gyflwyno ffurflen dreth i Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu. Rhaid i'r ffurflen gynnwys asesiad o faint o dreth a godir ar y gweithredwr a datganiad fod yr wybodaeth y mae wedi'i darparu, hyd eithaf ei wybodaeth, yn gywir ac yn gyflawn. Ei gwneud yn ofynnol cyflwyno'r ffurflen dreth a'r taliadau ar ddiwrnod gwaith olaf y mis yn dilyn y mis y daw'r cyfnod cyfrifyddu i ben, neu cyn hynny. Yn achos gweithredwyr safleoedd tirlenwi cofrestredig, mae'r cyfnod cyfrifyddu cyntaf yn dechrau ar y diwrnod y maent yn dechrau cynnal gweithrediadau trethadwy. Wedi hynny, eu cyfnod cyfrifyddu fydd pob cyfnod dilynol o 3 mis. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ddiwygio hyd y cyfnod cyfrifyddu trwy gyflwyno hysbysiad i weithredwr y safle tirlenwi.
- (a41) Pennu bod angen talu swm y dreth yr aseswyd ei fod i gael ei godi, erbyn y dyddiad y mae'n ofynnol cyflwyno'r ffurflen dreth.
- (a42) Ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr safleoedd tirlenwi gadw crynodeb o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu, gan gofnodi faint o treth a oedd i'w chodi a'r dreth a dalwyd. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru bennu ar ba ffurf y mae'n rhaid cadw crynodeb y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a pha wybodaeth y mae'n rhaid ei nodi ynddi.

- (a43-44) Diwygio adran 181B o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi fel bod angen i Awdurdod Cyllid Cymru, cyn penderfynu a ddylid caniatáu cais i ohirio taliad o'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ai peidio wrth aros am adolygiad neu apêl gyntaf, hefyd ystyried a fyddai adennill y swm yn achosi caledi ariannol. Mae hyn yn ychwanegol at yr angen i ystyried a oes gan rywun sail resymol dros ddweud bod swm y dreth yn ormodol. Mae'r adrannau hyn hefyd yn gwneud nifer o fân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

## Rhan 4: Gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig

Mae Rhan 4 yn darparu'r trefniadau ar gyfer gwarediadau trethadwy a wneir mewn lleoedd heblaw safleoedd tirlenwi awdurdodedig.

- (a45) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru godi treth am waredu gwastraff mewn man heblaw mewn safle tirlenwi awdurdodedig.
- (a46) Diffinio bod unigolyn yn bodloni'r amod ar gyfer codi treth pan fydd wedi gwaredu'r gwastraff neu wedi achosi neu ganiatáu i'r gwarediad trethadwy gael ei wneud, gan wybod ei fod yn gwneud hynny. Manylu y bydd unigolyn yn cael ei drin fel pe bai wedi achosi neu ganiatáu i wastraff gael ei waredu, gan wybod ei fod yn gwneud hynny, pe bai'n rheoli'r cerbyd modur neu'r trelar y gwaredwyd y gwastraff ohono neu pe bai'n berchennog, yn lesddeiliad neu'n feddiannydd y tir lle y gwaredwyd y gwastraff, oni bai y gall fodloni Awdurdod Cyllid Cymru i'r gwrthwyneb.
- (a47) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno hysbysiad rhagarweiniol i unigolyn os yw'n ymddangos bod gwarediad trethadwy wedi'i wneud y tu allan i safle tirlenwi awdurdodedig a bod yr unigolyn dan sylw yn bodloni'r amodau ar gyfer codi treth.
- (a48-49) Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno hysbysiad codi treth i'r unigolyn dan sylw, neu hysbysiad yn datgan nad yw'n bwriadu cyflwyno hysbysiad codi treth, o leiaf 45 diwrnod ar ôl cyflwyno'r hysbysiad rhagarweiniol. Rhaid i'r hysbysiad codi treth roi manylion y gwarediad trethadwy, egluro pam mae Awdurdod Cyllid Cymru yn fodlon bod yr unigolyn dan sylw yn bodloni'r amodau ar gyfer codi treth, nodi swm y dreth, egluro sut y cafodd y swm ei gyfrifo, a rhoi gwybod i'r unigolyn bod ganddo'r hawl i ofyn am adolygiad ac i apelio yn erbyn yr hysbysiad. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gyflwyno hysbysiad codi treth heb orfod cyflwyo hysbysiad rhagarweiniol os yw'n credu bod treth yn debygol o gael ei cholli pe byddai Awdurdod Cyllid Cymru yn cyflwyno hysbysiad rhagarweiniol, gan roi ei resymau pam.
- (a50-53) Ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n derbyn hysbysiad codi treth dalu'r dreth o fewn 30 diwrnod. Caiff rheoliadau wneud darpariaethau ychwanegol neu wahanol ynglŷn â'r gweithdrefnau ar gyfer cyflwyno hysbysiadau rhagarweiniol a hysbysiadau codi treth. Diwygio adran 157 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu ar gyfer codi llog am daliad hwyr pe byddai swm o Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cael ei godi trwy hysbysiad codi treth ac nad yw'r swm hwnnw'n cael ei dalu.

## Rhan 5: Darpariaeth atodol

Mae Rhan 5 yn gwneud darpariaeth atodol ar gyfer credydau, mannau na ddylid eu defnyddio at ddibenion gwaredu gwastraff, a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau a rhannu gwybodaeth. Mae hefyd yn nodi trefniadau mewn cysylltiad â phersonau, grwpiau, partneriaethau a chyrff anghorfforedig.

- (a53) Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n nodi o dan ba amgylchiadau y bydd gan rywun hawl i gael credydau treth mewn cysylltiad â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Rheoliadau sy'n

nodi ym mha amgylchiadau y caiff Awdurdod Cyllid Cymru wrthod cais am gredyd treth a sut y gall rywun herio penderfyniad gan Awdurdod Cyllid Cymru ynglŷn â chredyd treth.

- (a54) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ddynodi rhan o safle tirlenwi awdurdodedig yn ardal na chaniateir ei ddefnyddio at ddibenion gwaredu gwastraff, trwy gyflwyno hysbysiad i weithredwr y safle. Mae hefyd yn caniatáu i weithredwyr safleoedd tirlenwi wneud cais i greu man nad yw i gael ei ddefnyddio at ddibenion gwaredu gwastraff. Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Cyllid Cymru ddatgan yn yr hysbysiad pa ddeunydd y gellir ei roi ac na ellir ei roi mewn man o'r fath. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru amrywio neu ganslo hysbysiad dynodi. Ei gwneud yn ofynnol i geisiadau i Awdurdod Cyllid Cymru amrywio neu ganslo man nad yw i gael ei ddefnyddio at ddibenion gwaredu gwastraff gael eu gwneud yn ysgrifenedig.
- (a55) Ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi gydymffurfio â thelerau'r hysbysiad dynodi.
- (a56) Ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y safle tirlenwi gadw cofnodion priodol o ddeunyddiau a roddir mewn man nad yw i gael ei ddefnyddio i waredu gwastraff. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru bennu ffurf a chynnwys y cofnodion. Ei gwneud yn ofynnol cadw cofnodion am 6 mlynedd o'r dyddiad y symudir y deunydd o'r man nad yw i gael ei ddefnyddio i waredu gwastraff.
- (a57) Cynnwys penderfyniad sy'n ymwneud â dynodi man nad yw at ddibenion gwaredu gwastraff ar y rhestr o benderfyniadau y gellir eu hadolygu neu apelio yn eu herbyn yn unol â Rhan 8 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.
- (a58) Rhoi adran 103A newydd yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ganiatáu i Awdurdod Cyllid Cymru fynd i mewn safle busnes trydydd parti a'i archwilio er mwyn cadarnhau a yw gweithredwr safle tirlenwi yn agored i dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Ni chaiff Awdurdod Cyllid Cymru ond archwilio asedau a dogfennau sy'n ymwneud â rhwymedigaeth gweithredwr y safle tirlenwi i dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi. Mae'r pwerau hyn wedi'u cyfyngu i amgylchiadau lle mae gan Awdurdod Cyllid Cymru reswm i gredu bod unigolyn wedi bod yn ymwneud yn rhinwedd unrhyw swyddogaeth â gwarediad trethadwy a bod angen yr archwiliad er mwyn helpu Awdurdod Cyllid Cymru i gadarnhau a yw unigolyn arall yn agored i dalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

  Rhoi adran 103B newydd yn y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi er mwyn caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ymchwilio i warediad heb ei awdurdodi. Caiff Awdurdod Cyllid Cymru fynd i mewn i eiddo, gan gynnwys safle nad yw'n safle busnes, a chynnal archwiliad pan fo ganddo reswm i gredu bod gwastraff wedi'i waredu ar y safle neu fod y meddiannydd yn bodloni'r amodau ar gyfer codi treth mewn cysylltiad â'r achos yr ymchwilir iddo.

  Mae adran 103(2) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi yn nodi na chaiff Awdurdod Cyllid Cymru ond arfer ei bwerau gyda chytundeb meddiannydd y safle neu gymeradwyaeth y Tribiwnlys. Os na chaniateir i Awdurdod Cyllid Cymru gynnal archwiliad yn y ddau achos, gellir rhoi cosb o dan adran 146 o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi.
- (a59) Caniatáu i wybodaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu gan Gyfoeth Naturiol Cymru gael ei datgelu i Awdurdod Cyllid Cymru i'w helpu i gasglu a rheoli'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac i ymchwilio i achosion o osgoi neu efadu treth yn ôl yr angen.
- (a60-62) Pennu y gellir rhoi cosb o uchafswm o £500 i weithredwr safle tirlenwi nad yw'n cydymffurfio â gofyniad yn ymwneud â phennu pwysau'r deunydd, a hynny am bob gwarediad trethadwy sydd ynghlwm wrth yr achos o beidio â chydymffurfio. Mae'r un gosb yn berthnasol i weithredwyr safleoedd tirlenwi sy'n rhoi disgownt dŵr ar gam.

- (a63-66) Pennu y gellid rhoi cosb o £300 i unigolyn sy'n cyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod wedi'i gofrestru. Os bydd yr unigolyn dan sylw, ar ôl 10 diwrnod, yn parhau i gyflawni gweithrediadau trethadwy heb fod wedi'i gofrestru gellir rhoi cosbau o hyd at £60 y dydd iddo. Os gall unigolyn fodloni Awdurdod Cyllid Cymru bod esgus rhesymol dros beidio â chydymffurfio, ni fydd yn agored i gael cosb. Pan fo rhywun yn agored i gael cosb, rhaid i Awdurdod Cyllid Cymru asesu'r gosb a chyflwyno hysbysiad o fewn 12 mis.
- (a67) Pennu y gellir rhoi cosb o hyd at £5,000 i weithredwr safle tirlenwi nad yw'n cydymffurfio â thelerau dynodiad man nad yw at ddibenion gwaredu gwastaff neu delerau cyfatebol o ran cadw cofnodion. Dim ond un gosb y caniateir ei rhoi mewn cysylltiad â phob gweithred neu fethiant i weithredu. Os bydd gweithredwr y safle tirlenwi yn darparu tystiolaeth arall sy'n bodloni Awdurdod Cyllid Cymru mewn cysylltiad â methu â chadw neu storio cofnodion, ni fydd yn cael cosb.
- (a68) Caniatáu i asesiad o gosb gael ei gyfuno ag asesiad treth.
- (a71) Os bydd gweithredwr safle tirlenwi wedi marw, sefydlu y caniateir i unrhyw gosb y gellid bod wedi ei hasesu ar y gweithredwr, gael ei hasesu ar gynrychiolwyr personol y gweithredwr.
- (a72) Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch y weithdrefn ar gyfer asesu cosbau a swm y cosbau.
- (a73-75) Diwygio adrannau o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi i ddarparu ar gyfer cosbau ychwanegol, uwch os bydd rhywun sydd wedi peidio â chyflwyno ffurflen Treth Gwarediadau Tirlenwi neu wedi peidio â thalu'r dreth honno, wedi hynny, yn peidio â chyflwyno ffurflenni Treth Gwarediadau Tirlenwi eraill neu beidio â thalu symiau ychwanegol o'r dreth honno'n brydlon o fewn cyfnod penodedig. Swm y gosb mewn cysylltiad â pheidio â thalu'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn brydlon yw 1 y cant o swm y dreth sydd heb ei dalu.
- (a76-77) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ddynodi dau neu fwy o gyrff corfforaethol yn grŵp at ddibenion treth. Rhoi manylion darpariaethau ychwanegol o ran rhwymedigaeth aelodau'r grŵp, yn unigol ac ar y cyd. Mae angen i aelodau'r grŵp wneud cais i Awdurdod Cyllid Cymru er mwyn iddynt gael eu dynodi'n grŵp.
- (a78) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru amrywio dynodiad grwpiau trwy ychwanegu aelod at y grŵp neu dynnu aelod ohono, neu drwy newid yr aelod cynrychiadol. Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru ganslo dynodiad grŵp os yw'n fodlon nad yw'r amodau ar gyfer y dynodiad yn cael eu bodloni mwyach.
- (a79-80) Diwygio adran 172(2) o'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi fel bod y weithdrefn adolygu ac apelio yn berthnasol i benderfyniadau sy'n ymwneud â dynodi grŵp at ddibenion y Dreth Gwarediadau Tirlenwi.
- (a81-83) Caniatáu i Awdurdod Cyllid Cymru gofrestru'r bobl yn eu henwau eu hunain neu yn enw'r bartneriaeth neu'r corff pan fo dau neu fwy o bobl yn cynnal busnes tirlenwi mewn partneriaeth neu fel corff anghorfforedig. Manylu bod rhwymedigaeth i dalu treth, cosb neu log o ganlyniad i unrhyw beth y mae pobl sy'n cynnal busnes mewn partneriaeth neu gorff anghorfforedig yn ei wneud neu'n peidio â'i wneud, yn rhwymedigaeth yn unigol ac ar y cyd i bob unigolyn sy'n bartner yn y bartneriaeth neu'n aelod o'r corff ar yr adeg pan wneir neu pan na wneir y peth dan sylw.
- (a84-85) Ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n cynnal y busnes tirlenwi pan fo gweithredwr safle tirlenwi yn marw, yn dod yn analluog neu'n dod yn destun gweithdrefn ansolfedd, roi gwybod i Awdurdod Cyllid Cymru o fewn 30 diwrnod i'r adeg y mae'n dechrau cynnal y busnes tirlenwi. Rhoi'r pŵer i

Weinidogion Cymru wneud rheoliadau a all ychwanegu at y darpariaethau hyn, eu diddymu neu eu diwygio.

– (a86) Rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth mewn rheoliadau ynglŷn â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi a'r Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi pan fo busnes tirlenwi yn cael ei drosglwyddo o un person i un arall fel busnes gweithredol.

– (a87-89) Caniatáu ar gyfer addasu contract pan fo swm y taliad y darperir ar ei gyfer o dan y contract yn cael ei addasu i adlewyrchu'r newid yn y dreth sydd i'w chodi ar y gwarediad trethadwy. Caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau mewn cysylltiad â rhwymedigaeth rheolwr safle tirlenwi awdurdodedig i dalu'r dreth. Y sawl sy'n rheoli penderfyniadau ynghylch yr hyn y gellir ei waredu ar y safle ond nad yw'n gwneud y penderfyniadau hynny yn unig fel cyflogai neu asiant yw'r rheolwr.

## Rhan 6: Darpariaethau terfynol

Mae'r rhan hon yn gwneud darpariaethau amrywiol yn ymwneud â diwygio'r Ddeddf, cyhoeddi rheoliadau o dan y Ddeddf a diffiniad rhai termau penodol yn y Ddeddf.

– (a90) Caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, wneud unrhyw ddarpariaeth gysylltiedig, ganlyniadol, atodol, drosiannol, ddarfodol neu arbed sy’n briodol yn eu barn hwy ar gyfer unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano.

– (a91-95) Pennu'r weithdrefn sydd i'w defnyddio mewn cysylltiad â'r gwahanol bwerau a roddir trwy'r Bil i wneud is-ddeddfwriaeth. Manylu ynglŷn ag ystyr termau a ddefnyddir yn y Bil, cychwyn darpariaethau'r Bil a sefydlu mai teitl byr y Bil yw 'Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017'.

## Atodlenni

Ceir tair atodlen i'r Bil:

– Atodlen 1 - Yr hyn sydd i'w gynnwys yn y gofrestr

– Atodlen 2 - Yr hyn sydd i'w gynnwys ar anfoneb dirlenwi

– Atodlen 3 - Mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016

# 4. Costau ac effeithiau'r Bil

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn ystyried tri opsiwn mewn cysylltiad â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim
- Opsiwn 2 - Cyflwyno treth sy'n dyblygu'r Dreth Dirlenwi bresennol
- Opsiwn 3 - Datblygu treth benodol i Gymru

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir ac mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn rhoi manylion y costau a'r manteision sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Fodd bynnag, **mae'r costau gweinyddol a nodwyd yn ymwneud â chasglu a rheoli trethi datganoledig yn fwy eang ac nid y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn benodol**.

## Costau

Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, amcangyfrifir mai rhwng £4.8 miliwn a £6.3 miliwn yw cost sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19. Llywodraeth Cymru sy'n ysgwyddo'r costau hyn, ac maent yn cynnwys paratoi a chyhoeddi canllawiau, datblygu a chyflwyno hyfforddiant, a gweithredu trefniadau trosiannol er mwyn gallu casglu a rheoli'r holl drethi datganoledig yn effeithiol. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn amlygu na fu modd gwahanu'r costau gweinyddol sy'n ymwneud yn benodol â'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi.

Amcangyfrifwyd y bydd costau gweithredu Awdurdod Cyllid Cymru rhwng £2.8 miliwn a £4 miliwn bob blwyddyn gan ddechrau yn 2018-19, ac mae hyn yn cynnwys costau gweithredol dirprwyedig Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gweithgarwch ym maes sicrhau cydymffurfiad a gorfodi.

Bydd cost untro, ychwanegol i Lywodraeth Cymru, wrth i Gyllid a Thollau EM roi'r gorau i gasglu'r Dreth Dirlenwi a'r Dreth Stamp yng Nghymru. Amcangyfrifir y bydd hyn tua £1 filiwn.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol hefyd yn nodi costau untro (yn 2017-18) i weithredwyr safleoedd tirlenwi (£6,600) ac arbenigwyr treth (£13,000) am yr amser a gymerant i ymgyfarwyddo â'r ddeddfwriaeth. Mae'n ofynnol i weithredwyr â safleoedd tirlenwi yng Nghymru a Lloegr gyflwyno ffurflenni treth chwarterol ar wahân yn y ddwy wlad. Amcangyfrifir mai £150 y flwyddyn o 2018-19 ymlaen fydd cyfanswm cost gwneud hyn.

## Arian a arbedir

O ran arbed arian, ni fydd Cyllid a Thollau EM mwyach yn ysgwyddo'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu Treth Dir y Dreth Stamp na'r Dreth Dirlenwi yng Nghymru a disgwylir y bydd yn ad-dalu Llywodraeth Cymru. Yn seiliedig ar ddata Revenue Scotland, amcangyfrifir mai £275,000 y flwyddyn fydd yr ad-daliad o 2018-19.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi y bydd y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn cynnwys taliadau am waredu gwastraff heb awdurdodiad a nifer o gosbau newydd i ymdrin ag achosion o beidio â chydymffurfio. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn datgan nad yw'n hysbys hyn o bryd faint o bobl fydd yn peidio â chydymffurfio, ac felly ni ellir mesur y costau hyn. O dan opsiwn 3, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn nodi bod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi hysbysu, ym mis Medi 2016, y ceir 60 o safleoedd gwastraff anghyfreithlon yng Nghymru, â thua 55,000 tunnell o wastraff ar draws y safleoedd hyn. Pe byddai treth yn cael ei chodi arnynt ar y gyfradd safonol, byddai hyn yn golygu bod oddeutu £2.1 miliwn mewn treth wedi'i efadu.

Mae'r manteision eraill sy'n cael eu crybwyll, ond nid eu mesur yn ariannol, yn cynnwys; cefnogi polisïau Llywodraeth Cymru o ran gwastraff a'r amgylchedd, diweddaru a chydgrynhoi deddfwriaeth bresennol, a darparu sicrwydd a sefydlogrwydd ar gyfer y diwydiant gwastraff yng Nghymru.

**Tabl 3: Opsiwn 3 - Tabl costau (£)**

| | 2016-17 | 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 | 2020-21 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Llywodraeth Cymru**[1] | | | | | |
| Sefydlu ACC[2] | 4,800,000 – 6,300,000 | | | | |
| Costau dirwyn i ben | | 1,000,000 | | | |
| **ACC** | | | | | |
| Costau gweithredu | | | 2,800,000 - 4,000,000 | 2,800,000 - 4,000,000 | 2,800,000 - 4,000,000 |
| **Gweithredwyr Safleoedd Tirlenwi** | | | | | |
| Ymgyfarwyddo | | 6,600 | | | |
| Ffurflenni treth | | | 150 | 150 | 150 |
| **Arbenigwyr trethi** | | | | | |
| Ymgyfarwyddo | | 13,000 | | | |

**Nodiadau**

1. Disgwylir y bydd CThEM yn ad-dalu'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu LfT ac SDLT o 2018/19; amcangyfrifir bod hyn yn dod i £275,000 y flwyddyn. Trosglwyddiad oddi wrth CThEM i Lywodraeth Cymru yw hwn.
2. Disgwylir y bydd costau sefydlu ACC yn ymestyn dros y cyfnod 2016-17 i 2018-19.

Memorandwm Esboniadol, y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru), tudalen 86

# 5. Ymatebion i'r Bil

Cyflwynwyd y Bil yn y Cyfarfod Llawn gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, ar 29 Tachwedd 2016. Rhestrir isod rai o'r materion a godwyd gan yr Aelodau.

**Croesawodd Adam Price (AC)** y Bil a gofynnodd a oedd yn rhoi cyfle i ailasesu'r dyddiad targed ar gyfer Cymru ddiwastraff. Holodd hefyd am y berthynas rhwng Awdurdod Cyllid Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, a gofynnodd i ba raddau y byddai disgwyl i Gyfoeth Naturiol Cymru oruchwylio achosion o waredu gwastraff heb ei awdurdodi ac a oes gan Gyfoeth Naturiol Cymru ddigon o adnoddau i wneud hyn.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *The decision to ask Natural Resources Wales to undertake the enforcement aspect of this tax is because of its presence already in the waste field—the fact that it is possessed of information about how it operates on the ground and to put that to best use. We are already providing some additional funding to NRW in order to allow it to prepare for these new duties. We will see whether it is necessary to go on doing that in future in that way. I am certainly open to discussions as the Bill proceeds as to some revenue-sharing arrangements. If Natural Resources Wales is able, by bearing down on illegal waste sites, to increase the flow of revenue into the WRA, it does not seem unreasonable to me that they should not be allowed to keep a share of that additional revenue in order to promote it to do more work in this area. I look forward to discussing that possibility as the Bill moves through the process of scrutiny.*

**Nododd David Melding (AC)** y bwriad i wneud y ddeddfwriaeth yn symlach a haws ei deall, ac roedd hefyd yn croesawu grant cymunedol y dreth gwarediadau tirlenwi. Holodd ynglŷn â'r agwedd at sicrhau cydymffurfiad a chymryd camau gorfodi ynglŷn ag achosion o waredu gwastraff heb awdurdodiad, a sut y bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon.

Meddai Ysgrifennydd y Cabinet:

> *Compliance and enforcement is a particular issue in relation to this tax. The tax gap in landfill tax—the gap between what the tax should raise and what it does raise—is 12 per cent. In stamp duty land tax—the other tax that we will inherit—it's 1 per cent. So, there is a genuine enforcement issue to be tackled in relation to this tax, and our decisions to include unauthorised disposals within the scope of the Bill follows the experience already in Scotland and elsewhere. The parts of the Bill that deal with this matter are serious parts of the Bill. It will rest on two rebuttable propositions: that a person controlling or in a position to control a motor vehicle or trailer, or an owner, lessee or occupier of land where unauthorised disposal of waste is made, will be treated as having knowingly caused or permitted a disposal. (…)*
>
> *As far as fly-tipping is concerned, there is no legal definition of fly-tipping, but the sort of small-scale fly-tipping that causes such a nuisance in urban areas, for example, is not the focus of this Bill primarily. We are focused on those 60 illegal sites that exist in Wales where it is organised, intentional and deliberate behaviour, rather than small-scale attempts to evade small amounts of taxes.*

**Amlygodd Mike Hedges (AC)** fod y dreth hon yn ymwneud â newid ymddygiad, a soniodd am effaith bosibl cael cyfradd dreth wahanol i'r hyn sy'n bodoli yn Lloegr gan fod llawer o safleoedd tirlenwi yn agos at y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Gofynnodd hefyd a ellid rhoi ystyriaeth i'r bobl sy'n byw agosaf at safleoedd tirlenwi o ran y cynllun grantiau cymunedol.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *… I recognise the point he makes about the border and sensitivity to different rates on either side of it. I will not be declaring my hand in relation to tax rates in this Bill until the autumn of next year. (…) as far as illegal waste is concerned, the Bill provides the power to set a separate rate of tax on illegal waste deposits, and I will be thinking hard about what that rate might be and how it might need to reflect the costs of pursuing those people who, in the end, will be obliged to pay it.*
>
> *In relation to the community grant scheme, this issue of the mileage around the site and who should benefit from it has been one of the more lively debates in the consultation that we've carried out with stakeholders about our idea here. I said in my statement that I will be publishing a paper on the communities fund in advance of my appearance before the Finance Committee on 15 December, and I will certainly be reflecting on that issue in that paper.*

**Holodd Mark Reckless (AC)** am y cysyniad o 'dwristiaeth gwastraff', y polisi sy'n llywio'r Bil a'r dull o gymryd camau gorfodi yn erbyn achosion o waredu gwastraff heb awdurdodiad.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet:

> *… 'waste tourism' is an inelegant phrase. (…) The research shows that people taking waste to landfill are relatively sensitive to relatively small changes in the rate of tax to be paid. What I'm keen to avoid is waste being taken on long journeys to more distant places than it otherwise would have been by creating disincentives in the tax system, or incentives in the tax system.*
>
> *(…) Although this is a diminishing tax as far as the Bill is concerned, it still was intended to raise £40 million in a year, and, as finance Minister, I haven't got £40 million to fill the hole that would be left if we didn't take action to raise that money here in Wales. So, there is an important purpose behind the Bill in securing revenue for public services in Wales, but there is at the same time that very important alignment with environmental policy, where our policy is, as quickly as we are able to do it, to reduce and then eliminate the use of landfill for waste disposal.*
>
> *Finally, the question that the Member asked about unauthorised disposals, and the balance of proof that will be used in this area. The WRA already will have civil powers of investigation as part of any tax inquiry , but I signalled in my statement my intention to consult in the spring on the criminal powers of investigation that the Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 enables Welsh Ministers to confer on the Welsh Revenue Authority. This is to be done through secondary legislation. I think we need to take a proportionate approach in that, but it will be my intention to bring proposals in front of the National Assembly for scrutiny.*

**Gofynnodd Simon Thomas (AC)** i Ysgrifennydd y Cabinet gadarnhau nad oedd y Bil yn cael ei ddefnyddio i newid polisi amgylcheddol, a holodd pam mae'r cynllun grant cymunedol wedi cael ei ddatblygu y tu allan i'r Bil.

Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet nad oes unrhyw fwriad i newid polisi amgylcheddol, a dywedodd fod y cynllun cymunedol wedi cael ei ddatblygu y tu allan i ddeddfwriaeth i'w wneud yn symlach ac yn fwy costeffeithiol.

**Gofynnodd Nick Ramsay (AC)** i Ysgrifennydd y Cabinet am y trefniadau pontio i'r dreth newydd a rôl Awdurdod Cyllid Cymru.

Atebodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod yn ymwybodol o bwysigrwydd meithrin gallu Awdurdod Cyllid Cymru a sicrhau bod y sgiliau a'r profiad angenrheidiol gan y sefydliad.

# 6. Amserlen arfaethedig ar gyfer gweithredu yn ôl y Memorandwm Esboniadol

Yn amodol ar i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymeradwyo'r Bil ac iddo gael Cydsyniad Brenhinol wedi hynny, dyma'r cerrig milltir a ragwelir ar gyfer ei weithredu:

– Cydsyniad Brenhinol - rhagwelir ar gyfer hydref 2017

– Cyhoeddiad ynglŷn â chyfraddau'r dreth - hydref 2017

– Cyfnod gweithredu - hydref 2017 - Ebrill 2018

– Dyddiad y daw'r Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn fyw - mis Ebrill 2018 neu cyn hynny

– Adolygiad ar ôl gweithredu

# 7. Crynodeb o'r newidiadau yng Nghyfnod 2

## Cefndir

Cyflwynwyd y Bil yn ffurfiol yn y Cyfarfod Llawn ar 29 Tachwedd 2016 gan Mark Drakeford, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ("Ysgrifennydd y Cabinet").

Y Bil hwn yw'r trydydd Bil i sefydlu trefniadau treth ddatganoledig yng Nghymru ac mae'n cael ei ragflaenu gan y Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 a'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017.

Diben y Bil hwn yw gwneud darpariaethau ar gyfer cyflwyno'r dreth Trafodiadau Tir, a fydd yn disodli Treth Tirlenwi'r DU yng Nghymru ym mis Ebrill 2018.

## Craffu

Trosglwyddodd y Pwyllgor Busnes y Bil i'r Pwyllgor Cyllid ("y Pwyllgor") graffu arno.

Ar 15 Tachwedd 2016, cytunodd y Pwyllgor Busnes mai 10 Mawrth 2017 fyddai'r terfyn amser i'r Pwyllgor gyflwyno ei adroddiad Cyfnod 1.

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ar egwyddorion cyffredinol y Bil, ac aeth ar ymweliad â safle tirlenwi Lamby Way yng Nghaerdydd ar 2 Chwefror 2017. Cymerodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar rhwng 15 Rhagfyr 2016 a 2 Chwefror 2017.

Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad Cyfnod 1 ar 10 Mawrth 2017. Cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ei adroddiad ar y Bil ar yr un diwrnod hefyd.

Gwnaeth y Pwyllgor Cyllid 24 o argymhellion yn ei adroddiad a gwnaeth y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol 12 argymhelliad.

Ar 21 Mawrth 2017, yn dilyn dadl yn y Cyfarfod Llawn, cytunodd y Cynulliad y dylai'r Bil fynd ymlaen i Gyfnod 2.

Dechreuodd Cyfnod 2 ar 22 Mawrth 2017, a chyfarfu'r Pwyllgor i ystyried a gwaredu'r gwelliannau ar 11 Mai 2017.

## Gwelliannau a dderbyniwyd yng Nghyfnod 2

**Cafodd 47 o welliannau** eu cyflwyno; cafodd pump eu tynnu'n ôl yn ystod y cyfarfod ac na chafodd saith gwelliant eu cynnig. Cafodd pob un o'r 43 gwelliant a gyflwynwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet eu derbyn.

Nodir isod rai o'r prif newidiadau a wnaed yn ystod trafodion Cyfnod 2 (nid yw hon yn rhestr gynhwysfawr).

## Deunydd cymwys

**Mae gwelliannau 21 i 25** yn deillio o argymhelliad 11 yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac argymhellion 6 a 7 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r gwelliannau hyn yn rhestru'r deunyddiau cymwys ar wyneb y Bil mewn Atodlen. Mae hyn er mwyn cynorthwyo gweithredwyr safleoedd tirlenwi drwy ei gwneud yn glir pa fathau o ddeunydd sy'n gymwys ar gyfer y gyfradd is o dreth.

## Mynwentydd anifeiliaid anwes

**Mae gwelliannau 1 a 2** yn mynd i'r afael ag argymhelliad 7 yn adroddiad y Pwyllgor Cyllid i sicrhau bod cysondeb mewn perthynas â deddfwriaeth ddwyieithog. Mae'r gwelliannau yn mewnosod cyfeiriad at unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y mae'r gweddillion wedi eu cynnwys ynddynt, 'gweddillion anifeiliaid anwes meirw (ac unrhyw gynhwysydd neu ddeunydd y cynhwysir y gweddillion ynddo)'.

## Pwysau trethadwy deunydd

**Mae gwelliannau 3, 4 a 6** mewn ymateb i argymhelliad 13 o adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac maent yn newid adran 20 i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig benderfynu pwysau'r deunydd mewn gwarediad trethadwy drwy ddefnyddio pont bwyso.

**Mae gwelliannau 14 i 18 ac 20** yn egluro cwmpas y gosb disgownt dŵr, a cheisio ymhellach i sicrhau bod gan weithredwr y disgresiwn i gymhwyso disgownt dŵr lle mae wedi cael ei gymeradwyo gan Awdurdod Cyllid Cymru.

## Rhyddhad Rhag Treth

**Mae gwelliant 11** yn ymateb i argymhelliad 9 adroddiad y Pwyllgor Cyllid y dylai deunydd a dynnwyd yn ystod atal llifogydd hefyd fod yn destun rhyddhad ochr yn ochr â deunyddiau a dynnir er budd mordwyo. Mae Adran 26(2) yn cael ei diwygio i gynnwys unrhyw ddeunydd a dreilliwyd.

**Mae gwelliant 19** yn ceisio sicrhau bod y rhyddhad rhag treth (adran 31) yn gymwys pan fydd deunydd cymwys yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ail-lenwi pyllau glo brig a chwareli.

## Datgelu gwybodaeth

**Mae gwelliant 5** yn ymateb i ddyfarniad diweddar y Goruchaf Lys mewn perthynas â drafftio darpariaethau rhannu gwybodaeth a chymhwyso Deddf Diogelu Data 1998 ac yn gwneud hyn yn fwy eglur yn adran 59 y Bil.

**Mae gwelliant 13** yn ymateb i argymhelliad 9 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol er mwyn sicrhau y byddai angen i unrhyw reoliadau oedd yn diwygio'r rhestr o unigolion a all rannu gwybodaeth gydag ACC i fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

## Cosbau

Mae **gwelliant 8** yn ymateb i bryderon a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Mae'r gwelliant yn darparu nad yw person yn atebol i gosb am fethu â chadw cofnodion os bydd ACC yn fodlon gyda thystiolaeth ddogfennol arall.

**Mae gwelliant 7** yn lleihau'r gosb uchaf am fethu â chydymffurfio â gofyniad man nad yw at ddibenion gwaredu o £5,000 i £3,000.

## Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Mae gwelliant 12 yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i sefydlu cynllun grant i gael ei adnabod fel 'Cynllun Cymunedol y Dreth Gwarediadau Tirlenwi'.

## Y camau nesaf

Dechreuodd Cyfnod 3 ar 12 Mai 2017. Caiff y gwelliannau a gyflwynwyd yng Nghyfnod 3 o'r Bil (fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod 2) eu gwaredu yn y Cyfarfod Llawn ar 20 Mehefin 2017. Y terfyn amser ar gyfer cyflwyno gwelliannau oedd dydd Mawrth 13 Mehefin 2017.

## I gael rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am y Bil, cysylltwch â'r prif glerc cyfrifol, Bethan Davies.

# 8. Geirfa Gymraeg

## Termau penodol i'r Bil

– Accounting period – cyfnod cyfrifyddu

– Arrangement – trefniadau

– Authorised landfill site – safle tirlenwi awdurdodedig

– Calendar quarter – chwarter calendr

– Cell bund (Ystyr bwnd cell) yw strwythur mewn man gwarediadau tirlenwi sy'n gwahanu symiau o ddeunydd a ddodir yn y man hwnnw

– Charging notice – hysbysiad codi treth

– Companies Act 2006 – Ddeddf Cwmnïau 2006

– Controller – rheolwr

– Enactment relating to the tax –deddfiad sy'n ymwneud â'r dreth

– Environmental permit –trwydded amgylcheddol

– Filing date – dyddiad ffeilio

– Fines (Ystyr gronynnau mân yw gronynnau a gynhyrchir gan broses trin gwastraff sy'n cynnwys elfen fecanyddol)

– Hard standing (Ystyr arwyneb solet) yw sylfaen y cyflawnir gweithgarwch safle tirlenwi arni

– Holding company – cwmni daliannol

– Land – tir

– Landfill business –busnes tirlenwi

– Landfill disposal – gwarediad tirlenwi

– Landfill disposals area – man gwarediadau tirlenwi

– Landfill disposals tax summary – crynodeb treth gwarediadau tirlenwi

– Landfill disposals tax – treth gwarediadau tirlenwi

– Landfill Disposals Tax (Wales) Act 2017 (LDTA) – Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 (DTGT)

– Landfill invoice – anfoneb dirlenwi

– Landfill site – safle tirlenwi

– Landfill site activity – gweithgarwch safle tirlenwi

– Land Transaction Tax and Anti-avoidance of Devolved Taxes (Wales) Act 2017 (LTTA) – Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 (DTTT)

– Lower rate of tax – cyfradd dreth is

– Material – deunydd

– Non-disposal area – man nad yw at ddibenion gwaredu

– Non-qualifying material (Ystyr deunydd anghymwys) yw deunydd nad yw'n ddeunydd cymwys

– Notice – hysbysiad

– Operator – gweithredwr

– Partnership – partneriaeth

– Pet cemeteries – Mynwentydd anifeiliaid anwes

– Prescribed (Ystyr rhagnodedig) yw wedi ei ragnodi mewn rheoliadau

– Qualifying material – deunydd cymwys

– Qualifying mixture of materials – cymysgedd cymwys o ddeunyddiau

– Quarry – chwarel

– Registered – cofrestredig

– Relevant amount – swm perthnasol

– Relevant business documents – dogfennau busnes perthnasol

– Restoration work (Ystyr gwaith adfer) yw gwaith a wneir i adfer safle tirlenwi awdurdodedig (neu unrhyw ran o'r safle) at ddefnydd ac eithrio gwneud gwarediadau tirlenwi; ond nid yw gwaith i adfer man gwarediadau tirlenwi yn waith adfer oni chaiff ei wneud ar ôl i'r man gael ei gapio

– Screening bund (Ystyr bwnd sgrinio) yw strwythur, pa un ai uwchben y ddaear neu dan ddaear, ar gyfer diogelu neu guddio gweithgarwch safle tirlenwi neu leihau sŵn

– Standard rate of tax – cyfradd dreth safonol

– Tax – treth

– Taxable disposal –gwarediad trethadwy

– Tax return – ffurflen dreth

– Tax Collection and Management (Wales) Act 2016 (TCMA) - Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (DCRhT)

– The register – y gofrestr

– The tribunal – y tribiwnlys

– Unauthorised disposals rate of tax – cyfradd dreth gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi

– Unincorporated body – corff anghorfforedig

– Water discount record – cofnod disgownt dŵr

– Weighbridge – pont bwyso

– Weights and Measures Act 1985 – Deddf Pwysau a Mesurau 1985

– Weights and measures legislation – deddfwriaeth pwysau a mesurau

– Welsh Revenue Authority (WRA) – Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

## Termau deddfwriaethol cyffredinol

– Act – Deddf

– Amend – diwygio

– Amendment(s) – gwelliant/gwelliannau

– As introduced – fel y'i cyflwynwyd

– Enacted, enactment – deddfu, deddfiad

– Explanatory Memorandum – Memorandwm Esboniadol

– Explanatory Notes – Nodiadau Esboniadol

– Order in Council – Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor

– Provision(s) – darpariaeth(au)

– Regulation(s) – rheoliad(au)

– Repeal – diddymu

– Resolution – penderfyniad

– Revoke – dirymu

– Royal Assent – Cydsyniad Brenhinol

– Short title – teitl byr

– Stautory Instrument – Offeryn statudol

– Subordinate Legislation – is-ddeddfwriaeth

– Welsh tax legislation – deddfwriaeth drethi Cymru